

Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Bodfeurig

4/11/2020 7yh Cyfarfod Zoom (oherwydd cyfyngiadau Covid19)

Yn bresennol: Dave Percy (Cadeirydd), Sarah Gratton (Is-gadeirydd), Tamsin (Trysorydd), Lowri Harrington (Ysgrifennydd), Emily Roberts (staff ysgol), Susan Owen (Diprwy Pennaeth), Peter Ranstead (rhiant), Richard Edwards (rhiant)

1. Trafodaeth

Croeso gan y gadair a diolch i Sarah Gratton am awgrymu'r gystadleuaeth cerfio pwmpen a rhodd o wobrau. Hefyd, diolch i Jane Devereaux am godi drost £100 wrth werthu gwisg ysgol ail law.

2. Cyllid

Mae cyfraniadau ariannol (blwyddyn 2019/20) i'r ysgol wedi talu am, ac ar hyn o bryd dal yn talu am gymhorthydd dosbarth i gynorthwyo yn ystod y boreau. Bydd unrhyw gyfraniadau ariannol yn y dyfodol gan y CRhA i'r ysgol yn cael eu gwario yn yr un modd, ac os yn bosibl, os ydym yn codi digon o arian, i gynyddu'r oriau i gynnwys prynhawniau.

Mae'r balans cyfredol oddeutu £2100, codwyd y swm hwn trwy loteri'r ysgol, gwerthu gwisg ysgol ail law a chystadleuaeth cerfio pwmpen.

3. Syniadau codi arian

Cyflwynodd Tamsin Slinn y syniad i'r plant ddylunio cardiau Nadolig eu hunain ac argraffu a gwerthu i rieni, fel newid i'r tywel te Nadolig blynyddol. GWEITHREDU: Dave Percy i gysylltu hefo ffrind i gael dyfynbris. Tamsin i ffonio sefydliad sy'n cynnig y gwasanaeth yma am ddyfynbris.

Lowri Harrington i drefnu raffl fisol gyda gwobrau gan fusnesau lleol, trwy dudalen Facebook Ysgol Bodfeurig a thudalen Facebook Mynydd Llandegai. GWEITHREDU: Lowri i weithredu

Raffl hamper Nadolig, angen gofyn am roddion o wobrau raffl gan rieni tuag at hamper Nadolig. GWEITHREDU: Athrawon i ofyn am roddion trwy Class Dojo.

Awgrymodd Peter Ranstead i drefnu taith goleuadau Nadolig, wrth gadw at bellter cymdeithasol, o bosibl ym Mharc y bwllch. Rhoddion i'w gwneud ar-lein. GWEITHREDU: Bydd angen wirfoddolwyr i weithredu hyn, Dave Percy i drafod ymhellach gyda Peter.

Mae angen anfon nodyn atgoffa i rieni i ddefnyddio "Easy Fundraising" wrth siopa ar-lein y Nadolig hwn GWEITHREDU: Tamsin i weithredu, rhoi ar dudalen Facebook Ysgol Bodfeurig

Mae angen anfon nodyn atgoffa hefyd ar Class Dojo am loteri'r ysgol GWEITHREDU: Miss Emily i weithredu hyn

Awgrymodd Sarah Gratton o lyfr coginio lleol, i wneud drost tymor hir, gyda ryseitiai wedi'u rhoi gan bobl leol a chyn-fyfyrwyr yr ysgol, lluniau a straeon ac o bosibl lluniadau gan artistiaid lleol. GWEITHREDU: i'w drafod ymhellach

Awgrymiad o ddiwrnod "gwallt gwyllt" cyfun a diwrnod siwmpwr Nadolig i'w cynnal yn agosach at y Nadolig. GWEITHREDU: Athrawon i weithredu

Sarah Gratton i rannu gwybodaeth gyda'r ysgol/athrawon ynglŷn â chyllid grant sydd ar gael i ysgolion Cymru ar gyfer adnoddau i gefnogi mentrau STEM.

Bydd rhiant, Nell Hall yn cyflwyno cais i Waitrose am rodd o £333 yn lle'r casgliad 'tokens' sydd fel arfer yn digwydd yn y siopau (sy'n cael ei ohirio ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau Covid19). Diolch Nell am eich cefnogaeth.

3. Mae Richard Fraser-Jones, un o drigolion lleol Mynydd Llandegai, wedi cysylltu a Dave Percy sydd wedi gofyn am wybodaeth/llythyr gan y CRhA i gefnogi ei gais am fwy o rheolath draffig yn y pentref. GWEITHREDU: Dave i weithredu

4. CCB sydd ar ddod

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol i'w gynnal ym mis Ionawr, y dyddiad i'w gadarnhau ym mis Rhagfyr. Bydd rhai aelodau'r pwyllgor yn sefyll i lawr ym mis Ionawr, bydd angen llenwi rolau trysorydd a chadeirydd, bydd angen cyhoeddi disgrifiad o'r rolau ar "Ourschoolsapp" cyn y cyfarfod i hysbysu rhieni o'r hyn sydd dan sylw. GWEITHREDU: Tamsin i roi'r disgrifiadau rôl i Emily i cyhoeddi ar "Ourschoolsapp". Aelodau'r pwyllgor i gysylltu a staff ynglun a dyddiad y CCB.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:40

Cofnodion wedi'u paratoi gan Lowri Harrington